**Dyddiad cyhoeddi** Mawrth 2009

**Deall canllawiau NICE**

**Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG**

NHS

National Institute for Health and Clinical Excellence

# Trin chwimguriad fentrigol y galon gan ddefnyddio ynni gwres wedi'i drosglwyddo i'r tu allan i'r galon ar hyd tiwb tenau

*Mae 'arweiniad Techlechyd' NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar pryd a sut y gellir defnyddio triniaethau llawfeddygol newydd mewn arfer clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio ynni gwres wedi'i drosglwyddo i'r tu allan i'r galon ar hyd tiwb tenau, hyblyg (a elwir yn gathetr) yn y GIG i drin pobl â chwimguriad fentrigol. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio chwimguriad fentrigol y galon na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y

gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 8.

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Mae'r dystiolaeth ar y driniaeth hon yn hanu o nifer fach o gleifion, ond mae'n dangos bod y driniaeth yn gweithio ar gleifion wedi'u dewis yn ofalus ac nad oes materion diogelwch mawr. Gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd fel opsiwn triniaeth i bobl sydd â chwimguriad fentrigol y galon, cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Os yw meddyg am ddefnyddio'r driniaeth hon, dylai sicrhau y cymerir camau ychwanegol i egluro peryglon cymhlethdodau difrifol posibl, gan gynnwys niwed i gyhyr y galon. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r claf gytuno (neu beidio â chytuno) i'r driniaeth. Dylai tîm o feddygon arbenigol sydd â phrofiad mewn trin anhwylderau rhythm y galon benderfynu pa gleifion a ddylai gael y driniaeth hon. Dylai gynnwys arbenigwyr ym maes gweithgaredd trydanol y galon a thynnu meinwe annormal y galon. Dim ond cardiolegyddion sydd wedi hyfforddi ym maes gweithgaredd trydanol y galon, llawdriniaeth ar y galon, a thynnu meinwe annormal y galon a ddylai wneud y driniaeth hon a hynny ond mewn unedau â chymorth llawdriniaeth gardiaidd brys.

Mae NICE yn gofyn i feddygon anfon gwybodaeth am bawb a gaiff y driniaeth a'r hyn sy'n digwydd iddynt wedyn i storfa wybodaeth ganolog, sef y Gronfa Ddata Ganolog ar gyfer Archwiliadau Cardiaidd yn y DU (www.ccad.org.uk) er mwyn gallu archwilio diogelwch y driniaeth aneu pa mor dda y mae'n gweithio dros gyfnod o amser. Mae NICE wedi annog gwaith ymchwil pellach i'r driniaeth.

*Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer trin chwimguriad fentrigol y galon. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.*

## Trin chwimguriad fentrigol y galon gan ddefnyddio ynni gwres wedi'i drosglwyddo i'r tu allan i'r galon ar hyd tiwb tenau

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'abladiad radioamledd cathetr epigardiaidd drwy'r croen (nid thorasgopig) ar gyfer chwimguriad fentrigol y galon'. 'Mae 'epigardiaidd' yn cyfeirio at arwyneb allanol y galon ac ystyr 'abladiad radioamledd' yw defnyddio ynni gwres i dynnu meinwe. Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Mae chwimguriad fentrigol y galon yn gyflwr peryglus a all fod yn angheuol. Mae'n digwydd pan fo'r ysgogiadau trydanol sy'n rheoli curiad y galon yn afreolaidd fel bod y galon yn curo'n rhy gyflym. Ni all y galon bwmpio gwaed o amgylch y corff yn effeithlon felly. Gall chwimguriad fentrigol y galon, heb ei drin, achosi marwolaeth gardiaidd sydyn. Mae triniaethau'n cynnwys meddyginiaeth i reoli rhythm a chyfradd curiad y galon. Gellir cynnig triniaethau llawfeddygol, fel gosod diffibriliwr cardiaidd y gellir ei fewnblannu (ICD) (dyfais fach debyg i reolydd calon sy'n cael ei fewnblannu yn y claf) ac abladiad a wneir o'r tu fewn i'r galon, i bobl â chwimguriad fentrigol y galon parhaus.

Caiff y llawdriniaeth ei chynnal fel arfer gyda'r claf wedi'i lonyddu neu o dan anesthetig cyffredinol. Rhoddir tiwb tenau drwy'r croen a'i osod nesaf at yr epicardiwm (haen allanol wal y galon). Defnyddir pelydrau X i sicrhau ei fod wedi ei osod yn gywir. Trosglwyddir gwres i flaen y tiwb tenau a'i ddefnyddio i dorri lawr y rhannau o gyhyryn y galon lle mae'r ysgogiadau trydanol annormal. Rhoddir steroidau i'r claf er mwyn lleihau'r risg o lid o amgylch y galon. Gellir cyfuno abladiad o'r tu mewn a'r tu allan i'r galon.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae'r dystiolaeth ar y driniaeth hon yn hanu o nifer fach o gleifion, ond mae NICE wedi dweud ei bod yn ddigon diogel ac yn gweithio’n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu bod y driniaeth yn addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i'r driniaeth. Dylai eich meddyg egluro'r hyn y mae cael y driniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y risg o gymhlethdodau difrifol posibl, gan gynnwys niwed i gyhyryn y galon. Dim ond ar ôl i'r drafodaeth hon gael ei chynnal y dylid gofyn i chi p'un a ydych am gytuno i gael y driniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y daflen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda'ch meddyg cyn i chi wneud penderfyniad.

Mae NICE wedi penderfynu hefyd fod angen mwy o wybodaeth am y driniaeth hon. Efallai y bydd eich meddyg yn gofyn i chi a all manylion eich triniaeth gael eu defnyddio i helpu i gasglu rhagor o wybodaeth am y driniaeth hon. Bydd eich meddyg yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am hyn.

## Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw’r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo’n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw’r risgiau’n fach neu’n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o’i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.*

## Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE isod. Edrychodd NICE ar saith astudiaeth o'r driniaeth hon.

### Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn tair astudiaeth yn cynnwys 35 o gleifion a gafodd y driniaeth, diflannodd y cylchedau trydanol annormal mewn 32 o gleifion o fewn rhwng 14 a 25 mis ar gyfartaledd. Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd cynghorwyr mai prif ffactorau llwyddiant y driniaeth oedd atal chwimguriad fentrigol y galon, a lleihau'r angen am ICD.

### Risgiau a phroblemau posibl

Ni fu farw unrhyw un o'r cleifion o ganlyniad uniongyrchol i'r driniaeth. Bu farw tri oherwydd gwaethygodd methiant eu calon; bu farw un claf allan o 48 nifer o wythnosau wedi'r driniaeth a bu farw 2 (allan o 20) o fewn 12 mis ar gyfartaledd. Mewn un astudiaeth o 20 o gleifion, datblygodd 1 claf gysylltiadau annormal rhwng rhydweli a gwythïen, a oedd angen llawdriniaeth. Datblygodd claf arall broblemau â'r cerryntau trydanol yn y galon. Mewn astudiaeth o 10 o gleifion, datblygodd 1 gasgliad o waed yn y sach o amgylch y galon, a datblygodd 3 lid yn y sach. Mewn astudiaeth arall, roedd angen lleddfu poen ar 2 allan o 10 o gleifion oherwydd poen byr ei hoedl yn y frest.

Yn yr astudiaeth o 48 o gleifion, aeth y bilen o amgylch y galon yn llidus mewn 3 o gleifion ond gwellodd hyn o fewn wythnos.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr

clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai'r cymhlethdodau damcaniaethol oedd torri cyhyryn y galon a'r stumog; llid yn y bilen o amgylch y galon; twll yn y galon; niwed i'r rhydweli coronaidd, y llwnc, yr ysgyfaint a'r nerf i'r diaffram, ac i bibellau ac organau'r abdomen.

## Rhagor o wybodaeth am chwimguriad fentrigol y galon

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi cyngor a chymorth pellach i chi.

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae'r daflen hon yn ymwneud ag 'abladiad radioamledd cathetr epigardiaidd drwy'r croen (nid thorasgopig) ar gyfer chwimguriad fentrigol y galon'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/HTG187*

*Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**
MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-7888-5
N1939 1P Mar 09

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2009. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.